



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru

08 Mawrth 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Cynnwys

CYFLWYNIAD	2
CEFNDIR YR YMGYNGHORIAD.....	2
Pwy wnaeth ymateb?	2
Cynulliad Cenedlaethol Cymru – ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau	3
YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD	2
Statws a chylch gwaith.....	2
Y berthynas â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU	11
Aelodaeth.....	12
Gweinyddu	15
Bod yn agored ac yn dryloyw	16
Y CAMAU NESAF.....	19
ATODIAD A - RHESTR O RANDDEILIAID A AWGRYMIR AR GYFER NICFW YMGYSYLLTU	20
ATODIAD B - ARDALOEDD A AWGRYMIR AR YMCHWIL AR GYFER COMISIWN.....	23

CYFLWYNIAD

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i symud tuag at strategaeth fwy hirdymor sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth er mwyn buddsoddi yn y seilwaith. Bydd y strategaeth yn cadw at egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

I gyflawni'r nod hwn, rydym yn bwriadu sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru cyn diwedd 2017 i roi cyngor annibynnol ac arbenigol ar yr anghenion a'r blaenoriaethau o ran y seilwaith strategol. I ategu hyn, ac fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ymgysylltu â'r cyhoedd, lansiwyd ymgynghoriad ar gynigion i sefydlu a gweithredu'r Comisiwn yn gynharach eleni.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r adborth a ddaeth i law, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adborth hwnnw.

CEFNDIR YR YMGYNGHORIAD

Lansiwyd ein dogfen ymgynghori, "Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru"¹, gan Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros y Seilwaith a'r Economi, ar 17 Hydref 2016.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 9 Ionawr 2017, a daeth cyfanswm o 78 o ymatebion i law. O'u plith, roedd 72 ohonynt wedi defnyddio'r templed cwestiynau ac roedd 6 ohonynt wedi rhoi eu barn ar ffurf sylwebaeth, llythyr neu adroddiad.

Pwy wnaeth ymateb?

Daeth ymatebion i law gan sefydliadau o amryw o leoliadau a chanddynt amryw o fuddiannau:

Busnes	2	Unigolyn	6
Comisiynydd	1	Sector y gyfraith	2
Cyfathrebu	2	Grŵp Iobio	2
Cyngor Tref / Cymuned	7	Awdurdod Lleol (Cymru)	7
Adeiladu / Peirianeg	11	Y sector cynllunio	2
Y sector ynni	6	Gwleidyddol	2
Sector yr amgylchedd	11	Corff masnach	1
Grŵp cydraddoldeb	1	Undeb llafur	1
Y sector ariannol	1	Trafnidiaeth	5
Y sector iechyd	3	Prifysgol	1
Y sector tai	2	Dŵr	2

¹ <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/comisiwn-seilwaith-cenedlaethol-cymru>

Ymatebion yn ôl lleoliad	
Rhyngwladol	1
Y Deyrnas Unedig	20
Cymru	35
Y Gogledd	5
Y Canolbarth	4
Y Gorllewin	3
Y De	8
Anhysbys	2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Ym mis Tachwedd 2016, cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru. Amcanion yr ymchwiliad oedd:

- Darparu eglurder i randdeiliaid ar y modd y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu datblygu'r Comisiwn Seilwaith;
- Dylanwadu ar ddatblygiad polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn;
- Gwneud argymhellion ystyrlon i'r Llywodraeth.

Yn unol â'r ddogfen ymgynghori, gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau ar y materion a ganlyn:

- Beth ddylai rôl, cylch gwaith ac amcanion y Comisiwn fod;
- Sut y dylai'r Comisiwn weithredu, a pha fethodolegau y dylai eu mabwysiadu ar gyfer cynnal ei waith;
- Sut y dylai'r Comisiwn gael ei lywodraethu a'i ariannu i sicrhau ei fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru;
- Enghreifftiau o arfer gorau yn y DU ac yn rhyngwladol y gallai'r Comisiwn ddysgu oddi wrthynt;
- Sut y dylai gwaith y Comisiwn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Sut, ac i ba raddau, y dylai gwaith y Comisiwn ddylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru a'i blaenoriaethau o ran prosiectau seilwaith;
- Sut y dylai gwaith y Comisiwn ryngweithio â blaenoriaethau seilwaith rhanbarthol a Bargeinion Dinesig / Bargeinion Twf;
- Pa berthynas y dylai'r Comisiwn ei chael â Chomisiwn Llywodraeth y DU ar faterion trawsffiniol a seilwaith mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n rhannol.

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 24 Ionawr², ac mae'r ymateb hwn gan Lywodraeth Cymru'n rhoi sylw i'w argymhellion. Ceir ymateb uniongyrchol i adroddiad y Pwyllgor ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAID

Statws a chylch gwaith

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai cylch gwaith ac allbwn y Comisiwn gynnwys darparu dadansoddiadau, cyngor ac argymhellion i Weinidogion Cymru?		
Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
74 (92%)	4 (5%)	2 (3%)

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor o sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru (Comisiwn) yn unol â'r cynigion.

Dywedodd CBI Cymru wrthym:

Wrth i'r llywodraeth gael pwerau newydd dros drethiant, benthyca ac ynni, nawr yw'r adeg i fynd ati mewn ffordd wirioneddol hirdymor i ddiwallu ein hanghenion o ran seilwaith drwy greu Comisiwn a chanddo'r pwerau a'r adnoddau sydd eu hangen i bennu anghenion seilwaith Cymru ac i gynghori Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau o gynllunio ar gyfer y blaenoriaethau hyn a'u cyflawni.

Dywedodd TUC Cymru wrthym:

Mae'n hanfodol bod y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol arfaethedig yn gweithio fel rhan o strategaeth economaidd newydd a amlinellir yn glir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau twf economaidd ac i ddatblygu economi Cymru yn yr 21ain ganrif.

Bu i'r mwyafrif gytuno â'r cynigion ar gyfer cylch gwaith ac allbwn y Comisiwn. Cododd nifer o'r ymatebwyr bwyntiau eraill i'w hystyried hefyd. Dywedodd Arcadis wrthym y dylai fod gan yr argymhellion 'ddannedd', y dylent sbarduno gweithredu a chanlyniadau, ac y dylai'r Comisiwn geisio dysgu gwersi o wledydd a rhanbarthau datganoledig eraill i lunio argymhellion ar sail buddion gan ganolbwyntio ar werth seilwaith drwy ei oes gyfan yn hytrach na dim ond ei gost drwy ei oes gyfan.

Awgrymodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y dylid llunio cylch gwaith a chylch gorchwyl y Comisiwn

² <http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=16234>

...ar sail egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod yr hyn y mae'r Comisiwn yn ei wneud yn ceisio cyfrannu cymaint â phosibl at y saith nod llesiant, a'i fod yn gwneud hyn drwy ddilyn y pum ffordd o weithio, gan gynnwys cydweithio ac integreiddio.

Roedd ymatebwyr eraill yn cefnogi'r egwyddor hon, ac fe'i hategwyd ymhellach gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn ei argymhelliad: *"Dylid ystyried y Comisiwn yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015"*. Cafodd nifer o bwyntiau eraill eu codi'n gyson gan yr ymatebwyr, gan gynnwys yr angen i'r Comisiwn:

- asesu cyflwr presennol asedau seilwaith Cymru ac yna mynd ati i lunio gweledigaeth hirdymor o'r cychwyn cyntaf
- rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd
- mynd ati i ddysgu gwersi gan gyrrff tebyg mewn gwledydd a rhanbarthau datganoledig eraill

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn anghytuno'n teimlo y dylai'r Comisiwn wneud mwy na dim ond cynghori ac argymhell, gan awgrymu y gallai cylch gwaith y Comisiwn gynnwys cyflawni, rheoli prosiectau, datblygu sgiliau, a chaniatâd cynllunio.

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am eglurder o ran prosesau ac arferion y Comisiwn, gan gynnwys:

- Y broses adrodd, a fydd yr adroddiadau'n rhai cyhoeddus, ac a fydd y Cynulliad yn craffu arnynt
- Y broses a ddilynir os na fydd Gweinidogion Cymru'n cytuno â'r argymhellion
- Sut y bydd y cyngor a'r argymhellion yn cael eu trosi'n gamau gweithredu
- Sut y bydd y gwaith a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru'n cael ei fonitro a'i adrodd

O ran y cwestiwn a oedd achos cryf dros sefydlu'r Comisiwn ar sail statudol, roedd barn yr ymatebwyr wedi'i hollti. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion a geir yn y ddogfen ymgynghori, ac roeddent o blaid mynd ati i adolygu effeithiolrwydd y Comisiwn – gan gynnwys ei statws cyfreithiol – ar ôl ei sefydlu.

Roedd eraill yn teimlo y dylid ei sefydlu ar sail statudol cyn gynted â phosibl er mwyn cael Comisiwn grymus ac annibynnol.

Fodd bynnag, roedd consensws y dylid sefydlu'r Comisiwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac na ddylai'r broses o sefydlu corff statudol atal y momentwm. Daeth Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i'r casgliad *"mai'r ffordd orau o sicrhau annibyniaeth a hygyrdded y Comisiwn yw rhoi sail statudol iddo"* ond *"[nad] oes angen oedi cyn ei sefydlu drwy aros am ddeddfwriaeth"*.

Awgrymodd naw o'r ymatebwyr y byddai'r ffocws ar seilwaith economaidd ac amgylcheddol yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y Comisiwn.

Dywedodd Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru wrthym y dylai'r cylch gwaith gwmpasu seilwaith newydd o bob math, gan gynnwys seilwaith cymdeithasol

fel tai, ysgolion ac ysbytai, a hynny oherwydd y gyd-ddibyniaeth a'r angen am gysylltedd.

Dywedodd CBI Cymru:

Mae tai'n allweddol i atyniad economi leol ac mae angen diwygio'r prosesau cyfredol ar gyfer cynllunio a darparu tai. Gallai fod yn fuddiol i'r Comisiwn roi cyngor ar anghenion tai ac awgrymu dulliau arloesol o gyflawni targedau Llywodraeth Cymru o ran adeiladu tai.

Yn ei adroddiad, daeth Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i'r casgliad nad oedd "...yn argyhoeddedig ar hyn o bryd y dylai cylch gwaith y Comisiwn gynnwys pob elfen yn y seilwaith cymdeithasol". Serch hynny, dywedodd y Pwyllgor "bod achos cryf dros gynnwys y modd y cyflenwir tir ar gyfer datblygiadau tai ac iddynt arwyddocâd strategol, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig".

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn cytuno y dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddarparu fframwaith canolog ar gyfer gwaith y Comisiwn a byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori'n uniongyrchol yng nghylch gorchwyl y Comisiwn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y Comisiwn yn rhoi sylw dyledus i holl ddyletswyddau statudol perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd.

Roedd y pryderon a fynegwyd ynghylch statws anstatudol y Comisiwn yn canolbwyntio ar y cyfyngiadau posibl ar ei allu i weithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth. Wydym yn cytuno y dylai gwaith craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol fod yn rhan annatod a pharhaus o'r broses honno. Nid ydym yn ystyried y bydd y rôl a chylch gwaith y Comisiwn yn cael ei wella drwy ei wneud yn statudol, a bydd yn cynnal adolygiad cyn diwedd y Cynulliad hwn.

O ran y cwestiwn a ddylid estyn y cylch gwaith i gynnwys y seilwaith cymdeithasol, pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr fod angen ystyried anghenion seilwaith mewn ffordd gyfannol. Serch hynny, roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad a'r rheini a fu'n ymgysylltu â Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'n credu mai dim ond dylanwad cyfyngedig y byddai'r Comisiwn yn ei gael dros y seilwaith cymdeithasol, ond y gallai fod yn llai effeithiol, yn ymarferol, pe bai ei gylch gwaith yn cael ei ehangu.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor a'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi dod i'r casgliad na ddylid ehangu cylch gwaith y Comisiwn i gynnwys y seilwaith cymdeithasol yn gyffredinol.

Rydym yn sylweddoli bod dadl dros ehangu'r cylch gwaith i gynnwys cyflenwad tir strategol, ond o gofio'r systemau sydd eisoes ar waith, bydd angen ystyried hyn yn ofalus. Bydd angen rhoi cyfle i'r cynlluniau datblygu rhanbarthol ennill eu plwyf cyn bod modd asesu eu heffeithiolrwydd. Felly, rydym yn cynnig cynnwys hyn fel rhan allweddol o'r adolygiad y bwriedir ei gynnal cyn diwedd y Cynulliad hwn.

Yn y cyfamser, bydd disgwyl i'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ystyried y rhyngweithio posibl rhwng ei argymhellion a'r seilwaith cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod argymhellion y Comisiwn yn ystyried yr anghenion seilwaith mewn ffordd gyfannol, ond bod modd iddo ganolbwyntio ar ei brif faes gwaith.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y dylai cylch gwaith y Comisiwn estyn i seilwaith heb ei ddatganoli yn ogystal â seilwaith datganoledig?		
Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
68 (87%)	1 (1%)	9 (12%)

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Comisiwn ystyried y seilwaith datganoledig a'r seilwaith heb ei ddatganoli pan fydd yn cynghori Llywodraeth Cymru. Awgrymodd Centrica y byddai'r Comisiwn yn cael y dylanwad mwyaf pe bai ei gylch gwaith yn cynnwys cynghori ar y ffordd y gall cyfleoedd yng Nghymru gyfrannu at ddatblygu'r seilwaith ledled Prydain.

Awgrymodd Network Rail a'r Rail Delivery Group y dylai'r cylch gwaith adlewyrchu'r ffordd y mae pobl a busnesau'n defnyddio'r seilwaith, ni waeth a yw'r seilwaith wedi'i ddatganoli, heb ei ddatganoli, yn cael ei ddarparu ar sail asiantaeth, neu'n gyfan gwbl fasnachol ei natur.

Dywedodd Plaid Werdd Cymru:

Bydd hyn arbennig o bwysig os yw awdurdodau nad ydynt wedi'u datganoli'n hybu agenda a fydd yn niweidio dyheadau Cymru ac, yn yr un modd, os yw technolegau a phrosiectau'n cael eu datblygu a fydd yn dod â bygythiadau amgylcheddol i bobl ac i ecosystemau Cymru.

Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys y rheini a oedd yn cytuno, y rheini a oedd yn anghytuno a'r rheini heb farn bendant, y byddai perthynas y Comisiwn â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU yn hollbwysig er mwyn rhoi cyngor a gwneud argymhellion ystyrlon ar faterion trawsffiniol. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr fod angen mwy o eglurder o ran y ffordd y bydd y Comisiwn yn rheoli'r gwaith o roi cyngor a gwneud argymhellion ar faterion nad ydynt wedi'u datganoli.

Trafodir hyn ymhellach yn yr ymatebion i gwestiwn 8.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu cytundeb y mwyafrif y dylid cynnwys seilwaith nad yw wedi'i ddatganoli yng nghylch gwaith y Comisiwn. Rydym yn cytuno y bydd sicrhau bod Llywodraeth Cymru, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth y DU a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU yn gweithio'n effeithiol ac mewn ffordd gydgyssylltiedig yn allweddol i reoli'r agwedd hon, a byddwn yn ceisio rhoi mesurau ar waith i gryfhau ac, os oes angen, i ffurfioli'r berthynas hon.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno na ddylai'r Comisiwn roi cyngor ar raglenni a gwaith y penderfynwyd arnynt eisoes neu y penderfynir arnynt yn y dyfodol agos gan gyrff statudol a rheoliadol?

Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
37 (47%)	26 (33%)	15 (19%)

Roedd mwy o wahaniaeth barn ynghylch a ddylai'r comisiwn roi cyngor ar raglenni a gwaith y penderfynwyd arnynt eisoes, neu y penderfynir arnynt yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, roedd consensws clir a chyffredinol y dylid rhoi hyblygrwydd i'r Comisiwn ystyried rhaglenni sy'n bodoli eisoes yng nghyd-destun buddion cronus, neu welliannau posibl.

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym y dylai'r Comisiwn edrych i'r dyfodol yn hytrach nag i'r gorffennol, ac na ddylai fod modd iddo ystyried penderfyniadau allweddol yn ôl-weithredol, na phlisma penderfyniadau. Fodd bynnag, roedd hefyd yn teimlo y byddai angen rhagor o eglurder:

Er enghraifft, os oes penderfyniad eisoes wedi'i wneud i fwrw ymlaen â rhaglen ranbarthol gydweithredol, ni ddylai atal cyngor arbenigol rhag cael ei roi ynghylch y posibilrwydd o wella'r rhaglen.

Dywedodd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

Dylai'r Comisiwn ganolbwyntio ar y tymor canol i'r tymor hir ac ni fyddai'n briodol iddo argymhell ymyrryd mewn prosiectau a rhaglenni y cytunwyd arnynt.

Serch hynny, gallai gael rôl gadarnhaol drwy ganiatáu i'r Comisiwn gydweithio'n agos â'r gyrff rhanbarthol ac adrannau Llywodraeth Cymru i ddwyn ynghyd y blaenraglenni gwaith amrywiol y cytunwyd arnynt ac sydd yn yr arfaeth, gan gynnwys ymchwil ac astudiaethau, a rhoi cyngor ar synergedd, gwrthdaro, dyblygu a bylchau posibl.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r Comisiwn fynd ymhellach, ac y dylid cynnwys prosiectau cyfredol a'r rheini y penderfynir arnynt yn y dyfodol agos yn ei gylch gwaith, yn enwedig o ystyried y cyfnod hir rhwng penderfynu ar seilwaith a'i gyflawni.

Dywedodd Cynghrair Parciau Cenedlaethol Cymru wrthym:

O ystyried yr amserlen estynedig cyn dechrau llawer o brosiectau seilwaith a'r ffaith y gall fod yn synhwyrol 'ailfeddwl' mewn rhai sefyllfaoedd, byddem yn eich cyngori i gynnwys rhywfaint o hyblygrwydd o ran yr agwedd hon. Mewn rhai achosion, gall fod yn ddoeth cael rhywfaint o gyngor gan y Comisiwn ar brosiectau y cytunwyd arnynt ond nad ydynt wedi dechrau hyd yma.

Awgrymodd Prosiect Ymchwil Sefydliad Hodge o Brifysgol Metropolitan Caerdydd:

Dylai fod gan y Comisiwn bŵer i adolygu rhaglenni a'u sail resymegol, yn ogystal â gwaith y penderfynwyd arno eisoes, neu waith y penderfynir arno yn y dyfodol agos, i sicrhau bod modd ystyried y seilwaith y bydd ei angen yn y dyfodol mewn ffordd gydlynus, gan gynnwys argymhell newidiadau, os oes angen, i rai o'r penderfyniadau nad ydynt wedi'u gwneud hyd yma.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn derbyn bod angen i'r Comisiwn allu ystyried prosiectau seilwaith cyfredol ac arfaethedig pan fydd yn pennu anghenion y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai ei gylch gwaith gynnwys adolygu **rhaglenni a gwaith y penderfynwyd arnynt eisoes neu y penderfynir arnynt yn y dyfodol agos**. Mae'n debygol y byddai hynny'n ychwanegu ansicrwydd a chymhlethdod cyfreithiol a gweinyddol i'r prosesau penderfynu sy'n bodoli eisoes, a gallai ansefydlogi buddsoddiadau. O wneud hyn, byddai hefyd yn rhwymo adnoddau ac arbenigedd gwerthfawr sydd eu hangen ar y Comisiwn i ganolbwyntio ar anghenion seilwaith strategol y dyfodol.

Felly, ni fydd y Comisiwn yn mynd ati i ailagor prosesau penderfynu mewn achosion lle mae penderfyniadau wedi'u gwneud ar raglenni a gwaith (neu lle disgwylir penderfyniad arnynt yn fuan ar ôl cyflwyno cyngor y Comisiwn). Byddwn yn cadw llygad ar effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn allu ystyried gweithredu'n drawsbynciol mewn perthynas â materion darparu os yw'n eu hystyried yn rhwystr i fodloni anghenion seilwaith, gan gynnwys llywodraethu, costau, ariannu a methodoleg rheoli rhaglen/prosiect?

Nodwch unrhyw faterion darparu eraill y dylai'r Comisiwn allu edrych arnynt yn eich barn chi, a'r rheswm dros hynny.

Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
69 (88%)	2 (3%)	7 (9%)

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylai'r Comisiwn ystyried materion trawsbynciol. Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y byddai dull o'r fath yn hanfodol i sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hymgorffori yn ei gyngor a'i argymhellion.

Dywedodd Airbus wrthym y gallai dull o'r fath helpu i ryddhau adrannau ac asiantaethau rhag meddylfryd seilo i sicrhau bod y cynllun seilwaith yn cael ei roi ar waith mewn ffordd fwy strategol. Dywedodd hefyd:

Yn y pen draw, bydd angen i'r Comisiwn fod yn atebol, ar y cyd â Gweinidogion Cymru, am roi'r cynllun hwn ar waith, ac felly bydd angen herio unrhyw rwystrau trawsbynciol.

Awgrymodd Glandŵr Cymru y dylai'r Comisiwn ystyried arferion gorau ym mhob maes sy'n effeithio ar gyflawni, a gwneud argymhellion ar y materion hyn, yn ogystal â'r rhaglenni gwaith arfaethedig.

Nododd Dŵr Cymru y byddai'n arbennig o ddefnyddiol pe bai'r Comisiwn yn ystyried materion trawsbynciol oherwydd nad oes un corff yn ystyried cyd-ddibyniaeth y gwahanol rwydweithiau seilwaith ar hyn o bryd. Ychwanegodd y gallai hyn arwain at gydgyssylltu cynllunio a chyflawni yn well, a gwell cynllunio gofodol.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cymell gofal o ran gallu'r Comisiwn i adolygu materion cyflawni trawsbynciol. Yn eu hymatebion, dywedodd Network Rail a'r Rail Delivery Group wrthym:

I wneud y defnydd gorau o adnoddau arbenigol ac amser gwerthfawr ... dylai'r Comisiwn ganolbwyntio ar ystyried materion cynllunio seilwaith trawsbynciol o ran y dyfodol yn hytrach nag ystyried cyfraniadau i'r broses gyflawni a fydd yn amrywio'n sylweddol o'r naill ddarparwr seilwaith i'r llall.

Rhybuddiodd Cyfeillion y Ddaear Cymru fod materion cyflawni fel costau, ariannu a methodoleg rheoli rhaglenni/prosiectau yn faterion manwl iawn, a dywedodd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig na ddylai fod modd i'r Comisiwn ddiystyru prosesau a chaniatadau statudol sydd wedi ennill eu plwyf er budd hwylustod.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn cytuno â mwyafrif yr ymatebwyr a ddywedodd wrthym y dylai fod modd i'r Comisiwn ystyried materion cyflawni trawsbynciol. Yn ymarferol, rydym yn cydnabod y byddai'n ddoeth i'r Comisiwn ddefnyddio ei amser a'i adnoddau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n rhwystro prosesau cynllunio a phenderfynu effeithiol ynghylch seilwaith y dyfodol. Ni fydd y Comisiwn yn diystyru prosesau statudol, ond bydd disgwyl bod modd iddo roi cyngor a gwneud argymhellion ynghylch gwella prosesau o'r fath os ceir hyd i rwystrau sylweddol rhag cyflawni.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn ymgysylltu'n agos ac ymgynghori â chyrff eraill y gallai fod ganddynt gylch gwaith seilwaith economaidd ac amgylcheddol?

Yn eich barn chi, pa gyrff allweddol y dylai'r Comisiwn ymgysylltu ac ymgynghori â hwy?

Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
73 (94%)	0 0%	5 (6%)

Roedd bron i bob un o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Comisiwn ymgysylltu'n agos ac ymgynghori â chyrff eraill y gallai fod ganddynt gylch gwaith o ran y seilwaith economaidd ac amgylcheddol.

Awgrymodd Scottish Power y byddai hyn yn allweddol i osgoi dyblygu gwaith adrannau presennol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrff eraill yn ddiangen. Dywedodd Chwaraeon Cymru y dylai'r Comisiwn ymgysylltu

... â phob corff statudol y mae goblygiadau seilwaith yn rhan o'i gylch gwaith i sicrhau bod cynlluniau strategol yn cydweddu'n briodol â datblygiadau seilwaith lleol, a bod anghenion a phenderfyniadau lleol yn cael eu cynnwys yn y broses.

Dywedodd CBI Cymru wrthym y dylai fod dyletswydd ar y Comisiwn i ymgynghori â'r sector cyhoeddus fel rhan o'i ddyletswyddau arferol, yn yr un modd â'r ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr, fel Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru, y dylai hefyd ymgynghori â'r rheini y mae'r seilwaith cymdeithasol, fel tai, yn rhan o'u cylch gwaith.

Cynigiodd yr ymatebwyr restr o gyrff y dylai'r Comisiwn ymgynghori â nhw – fe'u rhestrir yn Atodiad A.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu'r ystod eang o randdeiliaid posibl yr awgrymwyd y dylai'r Comisiwn ymgysylltu â nhw. Bydd y rhestr hon yn gosod sylfaen ar gyfer gwaith ymgysylltu cychwynnol y Comisiwn wrth iddo ddatblygu. Er na fwriedir cynnwys y seilwaith cymdeithasol yng nghwmpas cyngor ac argymhellion y Comisiwn, rydym yn derbyn y bydd angen iddo ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r maes hwn i sicrhau bod anghenion amgylcheddol ac economaidd yn cael eu hasesu mewn ffordd gyfannol a gwybodus.

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno y dylai cylch gwaith y Comisiwn gynnwys cymryd rhan mewn fforymau cynghorol strategol perthnasol eraill, fel Cyngor Adnewyddu'r Economi?

Nodwch unrhyw fforwm arall y dylai'r Comisiwn gymryd rhan ynddo a'r rheswm dros hyn.

Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
57 (73%)	1 (1%)	20 26%

Roedd llawer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Cynghair Ffederasiwn Adeiladu Cymru, Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru, Ynni Cymunedol Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin, yn cefnogi'r cynnig mewn egwyddor,

ond pe na bai cylch gwaith a phwerau'r Comisiwn yn cael eu hegluro ymlaen llaw, roeddent yn teimlo y gallai arwain at ymgysylltu diangen a di-fudd.

Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y dylai fod gan y Comisiwn gynrychiolaeth ar amryw o fforymau oherwydd, o gymryd rhan weithredol ynddynt, byddai modd trosglwyddo gwybodaeth y naill ffordd a'r llall.

Ymateb y Llywodraeth

Drwy gylch gorchwyl y Comisiwn, byddwn yn sicrhau bod y dull o ymgysylltu â fforymau eraill, a chymryd rhan ynddynt, yn gynhwysol ond bod iddynt ffocws strategol.

Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru lunio a chyhoeddi adolygiad o statws a chylch gwaith y Comisiwn cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021?		
Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
52 (67%)	9 (12%)	17 (22%)

Er i'r rhan fwyaf ddweud y byddai angen adolygu statws a chylch gwaith y Comisiwn cyn etholiad nesaf y Cynulliad, roedd gwahaniaeth barn o ran sut y dylid gwneud hyn yn ymarferol. Bu i Airbus gefnogi'r cynnig, gan nodi'r hyn a ganlyn:

Bydd yn bwysig cynnal adolygiad cyn yr etholiad nesaf i sicrhau bod modd cyflwyno effeithiolrwydd gwaith y Comisiwn i'r cyhoedd cyn iddynt gael cyfle i bleidleisio yn 2021. Bydd hyn yn golygu bod modd i gylch gwaith y Comisiwn fod yn ddemocrataidd atebol.

I'r gwrthwyneb, rhybuddiodd un unigolyn rhag gwneud hyn oherwydd y posibilrwydd y gallai'r Comisiwn droi'n bêl-droed wleidyddol pe bai'r adolygiad yn cyd-daro â'r etholiad nesaf.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid cyhoeddi'r adolygiad mewn da bryd cyn 2021, ond roedd eraill yn pryderu na fyddai cynnal adolygiad yn 2021 yn rhoi digon o amser i asesu allbynnau'r Comisiwn yn deg.

Roedd yr atebion yn gyson o ran yr angen am annibyniaeth, craffu ac atebolrwydd democrataidd. Awgrymodd Cyfeillion y Ddaear Cymru y dylid cyflwyno'r cyngor a'r argymhellion gerbron pwyllgor perthnasol y Cynulliad er mwyn iddo roi adroddiad/sylwebaeth ar allbynnau'r Comisiwn os yw am wneud hynny. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a phennu newidiadau a fyddai'n fuddiol i weithrediad y Comisiwn a rhoi'r newidiadau hynny ar waith drwy raglen dreigl.

Ymateb y Llywodraeth

Bydd statws a chylch gwaith cychwynnol y Comisiwn – corff cyngori anstatudol sy'n canolbwyntio ar y seilwaith economaidd ac amgylcheddol – yn cael eu nodi'n glir yn y cylch gorchwyl a gyhoeddir.

Bydd yr adolygiad yn gwerthuso effeithiolrwydd statws a chylch gwaith y Comisiwn, a bydd argymhellion yn cael eu gwneud ynghylch unrhyw newidiadau angenrheidiol. Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd ynghylch y posibilrwydd y gallai'r Comisiwn droi'n bêl-droed wleidyddol ar adeg yr etholiad. Fodd bynnag, rydym yn credu y bydd hyn yn caniatáu digon o amser i asesu allbynnau'r Comisiwn, a chraffu arnynt, yn deg.

Serch hynny, er ein bod yn bwriadu cynnal adolygiad llawn a ffurfiol cyn tymor nesaf y Cynulliad, byddwn yn ystyried gwneud newidiadau i statws neu gylch gwaith y Comisiwn cyn hynny os bydd tystiolaeth gref yn dod i'r amlwg.

Y berthynas â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gydweithio â Chomisiwn Seilwaith y DU lle bo'n berthnasol?		
Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
71 (91%)	0 (0%)	7 (9%)

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai sefydlu perthynas waith gref o fudd mawr i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU ac i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach wrthym:

Mae FSB Cymru'n credu ei bod yn hollbwysig bod y Comisiwn yn cynnal cysylltiadau cryf â Chomisiwn Seilwaith Llywodraeth y DU. Mae llawer o'r meysydd sy'n effeithio ar amgylchedd seilwaith Cymru'n disgyn y naill ochr a'r llall i'r setliad datganoli.

Bu iddo hefyd argymhell y dylid pennu 'aelod cyswllt' ffurfiol o'r Comisiwn i sicrhau bod cyswllt ar gael â Chomisiwn y DU.

Bu i lawer o'r ymatebwyr eraill awgrymu y dylai cynrychiolydd o'r naill gomisiwn fod yn aelod o'r comisiwn arall. Awgrymodd Plaid Werdd Cymru y byddai hyn yn hwyluso perthynas gyfartal. Dywedodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fod rhaid cael llais cryf a dylanwadol o fewn Comisiwn y DU oherwydd mai yno y bydd penderfyniadau pwysig a fydd yn effeithio'n sylweddol ar economi Cymru'n cael eu gwneud.

Fel rhan o'i argymhellion, awgrymodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau:

Dylai Llywodraeth Cymru annog y Comisiwn i sefydlu a datblygu perthynas gref â Chomisiwn y DU a'r Scottish Futures Trust, a dylent rannu gwybodaeth â'i gilydd. Dylid gwneud hyn yn y llythyr cylch gwaith

cyntaf. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd gan y Comisiwn gyfraniad pwysig i'w wneud wrth ystyried goblygiadau prosiectau trawsffiniol a phrosiectau yn Lloegr yn unig sy'n gallu cael effaith fawr ar Gymru.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu sylwadau mwyafrif yr ymatebwyr a ddywedodd wrthym y bydd meithrin perthynas waith gref a chynhyrchiol yn allweddol i effeithiolrwydd y ddau gomisiwn, ac rydym yn cytuno â nhw. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU i bennu'r ffordd orau o gydweithio, a bydd yn cadw llygad cyson ar effeithiolrwydd y berthynas waith i weld a oes angen rhoi trefniadau mwy ffurfiol ar waith.

Aelodaeth

Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno y dylai aelodau'r Comisiwn gael eu penodi yn rhinwedd eu gwybodaeth arbenigol a phrofiad?		
Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
66 (85%)	0 (0%)	12 (15%)

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid penodi aelodau'r Comisiwn ar sail ansawdd eu gwybodaeth a'u profiad, ac nid dim ond yn rhinwedd eu swydd. Yn ei ymateb, awgrymodd Ffederasiwn Adeiladwyr Tai Cymru:

Mae perygl gyda grŵp o bobl o'r fath y byddant i gyd yn canolbwyntio ar eu meysydd arbenigol. Felly, mae'n bwysig bod pobl â phrofiad ehangach sy'n gallu rhoi ystyriaeth ehangach i'r seilwaith ffisegol a chymdeithasol yn cael eu cynnwys hefyd.

Awgrymodd Coed Cadw y dylai'r aelodau deimlo bod modd iddynt herio a chefnogi'r farn sy'n dod i'r amlwg a gweithredu fel cyfaill critigol i Lywodraeth Cymru. Pwysleisiodd cangen Brycheiniog a Maesyfed a changen Maldwyn o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig na ddylai fod gan y rheini a benodir unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro ac na ddylai'r Comisiwn fod yn llwyfan i lobïo nac i hybu buddiannau masnachol neu wleidyddol mewn modd annilys.

Rhybuddiodd Cyngor Sir Caerfyrddin y gallai cyfyngu nifer y cynrychiolwyr i 10 fod yn her o ran sicrhau bod yr unigolion hynny'n meddu ar yr arbenigedd, y sgiliau a'r profiad ymarferol sydd eu hangen.

Awgrymodd bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:

"Yr hyn sy'n bwysig yw'r angen i sicrhau bod natur yr wybodaeth arbenigol a'r profiad yn gwir adlewyrchu'r hyn sy'n ofynnol gan gylch gwaith y

Comisiwn, yn hytrach nag ailgylchu'r arbenigwyr sydd fel rheol yn cael eu penodi i gyrff o'r fath."

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu cytundeb y cyhoedd y dylid penodi aelodau'r Comisiwn ar sail teilyngdod. Byddwn yn rhoi'r rhagofalon angenrheidiol ar waith i sicrhau bod yr aelodau'n ymddwyn yn unol â'r disgwyliadau o ran llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys priodoldeb, gwrthrychedd, tryloywder a didueddrwydd. Byddwn yn amlinellu'r disgwyliadau hyn yn gynnwys drwy'r llythyr cylch gwaith.

Byddwn yn ystyried ymhellach a fydd 10 aelod yn ddigon.

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno y dylai pob penodiad i'r Comisiwn gael ei wneud drwy ymarfer penodi cyhoeddus agored?

Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
58 (74%)	1 (1%)	19 (24%)

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid penodi aelodau'r Comisiwn drwy ymarfer penodiadau cyhoeddus, ac roeddent yn cefnogi'n arbennig y ffaith y byddai ymarfer o'r fath yn rhoi mwy o dryloywder a chyfle i graffu. Dywedodd Airbus wrthym y byddai hyn

yn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus ac yn golygu na all fod unrhyw amheuaeth na chwestiwn ynghylch y perygl o gynllwynio neu ffafriaeth o blaid parti neu grŵp â buddiant, gan gynnwys grwpiau masnachol a grwpiau gwleidyddol.

Awgrymodd FSB Cymru y byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai'r pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad yn craffu ar y broses benodi. Awgrymodd TUC Cymru na ddylid cyfyngu 'gwybodaeth ac arbenigedd' hanfodol i gynllunio, datblygu a gweinyddu prosiectau yn unig.

Yn ei adroddiad, bu i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, argymhell yr hyn a ganlyn:

Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu cynnal gwrandawriad cyn penodi Cadeirydd y Comisiwn. Dylai'r Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad allu craffu'n flynyddol ar y Comisiwn a'i waith, ar ôl iddo gyhoeddi ei adroddiad blynyddol.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu sylwadau'r ymatebwyr ynghylch yr angen i sicrhau bod y broses o benodi aelodau'n annibynnol ac yn ddiduedd, a'i bod yn cynnwys trefniadau craffu. Rydym yn cytuno â nhw. Byddwn yn cynnal ymarfer penodiadau cyhoeddus i asesu addasrwydd yr ymgeiswyr ar sail eu sgiliau a'u profiad.

Byddai caniatáu i'r Cynulliad gynnal gwrandawriad i graffu ar y cadeirydd arfaethedig cyn ei benodi'n ffordd ddefnyddiol o sicrhau ymrwymiad ac o ychwanegu gwaith craffu i'r broses.

Cwestiwn 11: Sut ydych chi'n credu y dylem hyrwyddo'r broses penodiadau cyhoeddus hon i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol?

Gwnaeth yr ymatebwyr amryw o awgrymiadau ymarferol ynghylch ffyrdd o hyrwyddo'r broses benodi ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys:

- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Cyfathrebu amlieithog
- Defnyddio sectorau cymunedol, gwirfoddol a'r trydydd sector, yn ogystal â rhwydweithiau seilwaith mwy traddodiadol
- Sicrhau bod yr aelodaeth yn dod o bob rhan o Gymru
- Cael cipolwg ar gyrff eraill i weld yr arferion gorau o ran hybu penodiadau ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- Rhoi ymgyrch farchnata wedi'i thargedu ar waith gyda negeseuon cryf ac eglur
- Sicrhau bod y rheini sy'n rhan o'r broses recriwtio'n gytbwys o ran y rhywiau, yn annibynnol, ac yn deall pwysigrwydd amrywiaeth
- Defnyddio papurau newydd rhanbarthol i sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol
- Manteisio ar rwydweithiau amrywiaeth yr awdurdodau lleol
- Annog pobl ifanc i gymryd rhan
- Defnyddio'r cynghorau tref a chymuned

Awgrymodd rhai na fyddai angen ymgymryd ag unrhyw weithgarwch penodol gan fod prosesau sefydledig eisoes ar waith sy'n gynhwysol ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai cam o'r fath symud y ffocws oddi ar sicrhau bod yr aelodau'n meddu ar y sgiliau cywir.

Bu i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, argymhell yr hyn a ganlyn:

Dylai'r penodiadau a wneir i'r Comisiwn adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn deall pob rhan o Gymru. O ystyried pwysigrwydd y Bargeinion Dinesig/Bargeinion Twf, dylai'r Bwrdd ystyried sefydlu fforwm i ddwyn ynghyd y gwahanol ranbarthau yng

Nghymru ac i ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo yn y rhanbarthau hynny.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn ddiolchgar am yr ystod eang o awgrymiadau ynghylch sut y gallem hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth aelodaeth o'r Comisiwn yn well ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym yn credu ei bod yn hollbwysig sicrhau bod yr ystod ehangaf o bobl yn cael cyfle i wneud cais a byddwn yn ystyried yr awgrymiadau a wnaed pan fyddwn yn llunio'r broses penodiadau cyhoeddus. Bydd yn dal i fod yn hanfodol penodi aelodau ar sail eu sgiliau a'u profiad.

Gweinyddu

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn allu comisiynu ymchwil dargedig? Nodwch unrhyw ymchwil benodol y dylai'r Comisiwn, yn eich barn chi, ei chomisiynu fel blaenoriaeth i lywio'i waith gystal â phosibl, ac esboniwch pam.

Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
68 (87%)	0 (0%)	10 (13%)

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai ymchwil wedi'i thargedu fod yn un o swyddogaethau craidd y Comisiwn. Awgrymodd Prosiect Ymchwil Sefydliad Hodge o Brifysgol Metropolitan Caerdydd y dylai fod gan y Comisiwn gapasiti mewnol i bennu meysydd i ymchwilio iddynt ac i gomisiynu a gwerthuso ymchwil wedi'i thargedu.

Bu i'r ymatebwyr hefyd rybuddio'n gyson am y posibilrwydd o ddyblygu gwaith ymchwil a wnaed gan gyrff seilwaith eraill. Awgrymodd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy y byddai angen i'r Comisiwn ymgysylltu'n gynnar a llunio astudiaeth bwrdd gwaith gynhwysfawr i bennu'r ymchwil berthnasol sydd ar gael eisoes.

Awgrymodd Arcadis y dylai comisiynu ymchwil benodol wedi'i thargedu fod yn un o swyddogaethau craidd y Comisiwn ac y dylai ystyried llunio cyfres o astudiaethau penodol arfaethedig.

Ychwanegodd Cymdeithas y Gyfraith y dylid rhannu'r wybodaeth rhwng y cyrff statudol amrywiol cyn comisiynu unrhyw ymchwil. Ategwyd y farn hon gan Railfuture Cymru a awgrymodd yr hyn a ganlyn:

Dylai fod gan sefydliadau â diddordeb yng ngwaith y Comisiwn gyswllt dirprwyedig o fewn Llywodraeth Cymru a dylai fod modd iddynt roi sylwadau/cyngor i'r Comisiwn. Byddai hyn yn lleihau'r angen i gomisiynu ymchwil.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cyhoeddi unrhyw ymchwil a wneir ac y dylai fod yn hawdd i'r cyhoedd gael gafael arni.

Roedd llawer o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno y byddai angen dyrannu digon o adnoddau ariannol ac adnoddau dynol i'r Comisiwn er mwyn iddo gyflawni'r swyddogaeth hon. Dywedodd cadeirydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru y dylai fod gan y Comisiwn gyllideb realistig ac ysgrifenyddiaeth annibynnol i wneud hyn.

Ychwanegodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y dylai'r ysgrifenyddiaeth, a fydd yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, fod o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn i sicrhau ei bod yn annibynnol.

Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch yr ymchwil sydd ei hangen, gan gynnwys:

- Gwellu cysylltiadau a signal digidol, symudol a band eang
- Defnyddio adnoddau i ddarparu tai fforddiadwy cynaliadwy yng nghefn gwlad
- Newid hinsawdd a'i effaith ar y seilwaith presennol a'r seilwaith arfaethedig, rheoli dŵr, a gweithgarwch economaidd
- Effaith colli cronfeydd yr UE ar ariannu'r seilwaith ar ôl 2020
- Cyd-ddibyniaeth ar draws y sectorau gwres a thrafnidiaeth
- Newid patrymau defnyddio, cynhyrchu a chyflenwi
- Capasiti ardaloedd gwledig i ddefnyddio adnoddau naturiol i hybu cynaliadwyedd

Ceir rhestr lawn o'r awgrymiadau hyn yn **Atodiad B**.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn croesawu atebion yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Byddwn yn sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i liniaru'r risg o ddyblygu ymchwil ac yn darparu digon o adnoddau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr ysgrifenyddiaeth yn rheoli'r gwaith o gomisiynu ymchwil yn y ffordd orau i hwyluso'r swyddogaeth hon.

Byddwn yn trosglwyddo rhestr o'r meysydd ymchwil cychwynnol i'r Comisiwn eu hystyried yn ystod y cyfnod cynnar.

Bod yn agored ac yn dryloyw

Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith? Yn eich barn chi, pa ffactorau fyddai'n golygu bod angen i adroddiadau gael eu cyhoeddi fwy nag unwaith y flwyddyn?		
Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
65 (83%)	2 (3%)	11 (14%)

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn croesawu'r tryloywder ychwanegol y byddai adroddiadau blynyddol yn ei roi. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif hefyd yn teimlo y dylai fod gan y Comisiwn ryddid i gyhoeddi adroddiadau ar sail fwy hyblyg. Dywedodd Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru wrthym y dylid darparu adroddiadau rheolaidd ar faterion penodol i sicrhau tryloywder ac i ategu'r adroddiadau blynyddol. Awgrymodd Cynghair Cymunedau Diwydiannol (Cymru) y dylai gyhoeddi adroddiadau os bydd digwyddiadau economaidd sylweddol ac annisgwyl yn codi, fel cau ffatrioedd mawr a/neu benderfyniadau buddsoddi mawr. Dywedodd Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig wrthym y gall fod angen adrodd yn amlach ar faterion fel y cerrig milltir a gyrhaeddwyd a'r gwaith ymchwil a gwblhawyd.

Yn ogystal â rhoi trefniadau adrodd ffurfiol ar waith ar gyfer y Comisiwn, dywedodd rhai o'r ymatebwyr y dylid eu hestyn i gynnwys Llywodraeth Cymru a ddylai adrodd ar y penderfyniadau a wnaed. Yn ei ymateb, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:

“... dylid ehangu'r gofyniad i adrodd i gynnwys y Comisiwn a Llywodraeth Cymru. Dylai'r Comisiwn adrodd ar ei weithgareddau (dadansoddi, ymchwil, a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru), a dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar y penderfyniadau a wnaed.

Roedd rhai o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cyfeillion y Ddaear Cymru, yn credu y byddai modd craffu ar waith y Comisiwn yn well pe bai'r adroddiad blynyddol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad a bod cyfle i'w drafod.

Bu i'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru rybuddio rhag adrodd yn rhy aml, gan ddweud:

Mae mwy o adroddiadau'n arwain at fwy o herio a chraffu sy'n cymryd amser. Mae craffu o'r fath yn ddilys a gall annog y cyhoedd i ymddiddori ac i gyfrannu, ond gellir dadlau'r achos dros ei gyfyngu i un adroddiad blynyddol i leihau'r effaith ar adnoddau.

Yn ei adroddiad, bu i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, argymhell yr hyn a ganlyn:

Dylai'r Comisiwn lunio adroddiad rheolaidd ar “Gyflwr y Genedl” gan ddilyn amserlen wahanol i'r amserlen wleidyddol. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y dylid gwneud hyn bob tair blynedd. Dylai'r adroddiad blynyddol roi sylw i faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, yr hyn y mae'r Comisiwn wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf, a'i raglen waith dros y 12 mis nesaf. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion – boed yn yr adroddiad bob tair blynedd, neu mewn darnau unigol o waith – a hynny o fewn 6 mis.

Ymateb y Llywodraeth

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar yr angen am graffu, tryloywder ac atebolrwydd, ac rydym yn croesawu'r awgrymiadau o ran sut y gellir atgyfnerthu hyn.

Rydym yn derbyn y bydd angen hyblygrwydd i ganiatáu i'r Comisiwn adrodd yn amlach os oes angen. Er nad ydym yn awyddus i orchymyn ei fod yn adrodd yn amlach, byddwn yn ceisio sicrhau bod y cylch gwaith terfynol yn ddigon hyblyg.

Byddwn yn sicrhau bod adroddiadau'r Comisiwn, ac ymatebion Llywodraeth Cymru iddynt, yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol mewn ffordd debyg i'r hyn y mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU yn ei wneud.

Rydym yn tybio bod argymhelliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau'n darparu fframwaith cymesur ar gyfer y trefniadau adrodd.

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Comisiwn gynnal cyfarfodydd cyhoeddus bob blwyddyn yng ngogledd, canolbarth, de a gorllewin Cymru i esbonio a hyrwyddo ei rôl?

Cytuno (yn llwyr neu'n rhannol)	Anghytuno	Dim sylw neu farn bendant
58 (74%)	3 (4%)	17 (22%)

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y byddai cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru'n helpu i egluro ac i hyrwyddo rôl y Comisiwn. Dywedodd Arcadis wrthym y dylid ymgysylltu yn y ffordd hon bob blwyddyn i roi gwybod i'r cyhoedd am y cynnydd a wnaed gan y Comisiwn neu'n eithriadol os bydd mater penodol yn codi.

Awgrymodd Glandŵr Cymru (yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd) y dylai gynnal cyfarfodydd yn Llundain ac mewn dinasoedd mawr gerllaw ffin Cymru/Lloegr hefyd ... i sicrhau dealltwriaeth ehangach o'i fethodolegau gwaith a'r egwyddorion sylfaenol yng Nghymru.

Awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y byddai modd rhannu gwybodaeth am y Comisiwn drwy brosesau cyrff a sefydliadau lleol pe bai'r Comisiwn yn ymgysylltu â nhw.

Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin mai adrodd yw swyddogaeth y Comisiwn ac nid ei hyrwyddo ei hun. Bu iddo hefyd argymhell y byddai darparu gwybodaeth drwy TGCh yn llawer mwy cost-efeithiol ac yn cymryd llai o amser.

Ymateb y Llywodraeth

Bydd y safbwyntiau a fynegwyd gan yr ymatebwyr yn llywio ein hystyriaethau o ran sut y bydd y Comisiwn yn ymgysylltu â'r cyhoedd, a hyd a lled yr ymgysylltu hwnnw. Mae'n amlwg y bydd angen i broses ymgysylltu'r Comisiwn fod yn gymesur, yn ystyrlon ac yn gynhwysfawr, a bydd rhaid sicrhau, yn y pen draw, nad yw'n cyfyngu ar ei allu i ddarparu cyngor strategol, hirdymor, nac yn tynnu ei sylw oddi ar y gwaith hwnnw.

Y CAMAU NESAF

Rydym yn ddiolchgar am yr adborth craff ac adeiladol a ddarparwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn ystyried yr adborth hwn ymhellach ochr yn ochr ag argymhellion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Byddwn yn defnyddio'r adborth gwerthfawr hwn i fireinio ein cynigion ar gyfer y Comisiwn ar ffurf cylch gorchwyl a gyhoeddir cyn cynnal ymarfer penodiadau cyhoeddus.

ATODIAD A - RHESTR O RANDDEILIAID A AWGRYMIR AR GYFER NICFW YMGYSYLLTU

A

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymdeithasau
Adrannau Llywodraeth Cymru
Arbenigwyr cyfathrebu digidol
Amddiffynfeydd rhag llifogydd
Awdurdodau Cynllunio Lleol.
Awdurdodau lleol
Awdurdodau Trafnidiaeth Rhanbarthol
Rheoleiddwyr

B

Bt
Busnes / cyflogwyr
Buddsoddwyr ariannol
Bws cwmnïau / gweithredwyr
Byrddau iechyd
Byrddau datblygu economaidd,
Byrddau dŵr

C

CADW
Campaign for National Parks (CNP)
Campaign for the Protection of Rural Wales (CPRW)
Canals and rivers trust,
Chamber of Commerce
City Region Boards.
Civil Engineering Contractors Association Wales
Comisiynwyr
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Confederation of British Industry (CBI)
Council for Economic Renewal
Cydraddoldeb sefydliadau / cymdeithasol.
Cymdeithasau manwerthu
Cymdeithasau masnach
Cynllunio
Cyngorau Tref a Chymuned

D

Darparwyr band eang a thelathrebu
Darparwyr Gwasanaethau Dŵr
Darparwyr seilwaith digidol
Datblygwyr tai
Department for Environment, Food & Rural Affairs (DEFRA)
Dwr Cymru Welsh Water,

E

Environment agency

F

Federation of Small Businesses (FSB)

Fuel Poverty Coalition Cymru (FPCC),

G

Growing mid wales partnership,

Gweithredwyr meysydd awyr a chwmnïau hedfan

Gweithwyr proffesiynol yn y sector cyflenwi

Grwpiau defnyddwyr diwedd- / sefydliadau

Gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu ynni

Grwpiau cydraddoldeb

Gwasanaethau tân

Gwestai

Gweithredwyr rheilffyrdd

H

Health and Safety Executive (HSE)

Heddlu

High Speed 2 Ltd

Highways England

I

Institution of Civil Engineers (ICE)

Industry Wales

M

Mersey-Dee Alliance

Ministry of Defence (MoD)

N

National Development Framework

National Grid

National Park Authorities

National Procurement Service

National Health Service (NHS)

Natural Resources Wales (NRW)

Network Rail

North Wales Economic Ambition Board (NWEAB)

O

OfCOM,

OFGEM

OFWAT

One Voice Wales

P

Public Health Wales
Porthladdoedd / Awdurdodau Harbwr

R

Rail Delivery Group
Railfuture
Ramblers Association
Royal Society for the Protection of Birds (RSPB)

S

Scottish Executive
Scottish Power.
Severn Trent Water,
Sustrans
Sector addysg
Sefydliadau sector preifat

T

Traffic Wales
Transport for the North
Transport for Wales

U

UK National Infrastructure Commission
UK Government,

V

Value Wales

W

Welsh Local Government Association (WLGA)
Western Power Distribution
Wildlife Trusts
Woodland Trust
Wye and Usk Foundation
Wye Catchment Conservators

Y

Youth Hostels Association (YHA)

ATODIAD B - ARDALOEDD A AWGRYMIR AR YMCHWIL AR GYFER COMISIWN

Atodiad B - Ardaloedd A Awgrymir Ar Ymchwil Ar Gyfer Comisiwn	
Rholiwch allan o 5G yng Nghymru	Gallu o adnoddau naturiol cefn gwlad areas to use to Hybu cynaliadwyedd
Cysylltedd digidol a band eang	Defnydd o adnoddau tuag at dai fforddiadwy cynaliadwy yng nghefn gwlad cymru
Gwelliannau i cysylltedd symudol a darllediadau	Gofynion sgiliau
Diwygiadau posibl i'r system gynllunio i adlewyrchu cynhwysiant digidol.	Gofynion materol ac argaeledd
Doll teithwyr awyr caerdydd	Dylanwad gyfathrebu digidol a seilwaith trafndiaeth
Effaith cynlluniau ynni gwyrdd mewn neu gerllaw dirweddau dynodedig Gymru '.	Newidiadau ym mhatrymau bwyta, cynhyrchu, a chyflenwi
Seilwaith newydd mewn gwledydd eraill	Datblygu, a newidiadau mewn aneddiadau dynol o fewn cymru
Gasglu data ar gyfer materion o bwys cenedlaethol, megis y newid yn yr hinsawdd neu lifogydd.	Newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar y seilwaith presennol cymru a gynlluniwyd, rheoli dŵr, a gweithgarwch economaidd
Cysylltiadau seilwaith telathrebu i gymunedau gwledig.	Seilwaith digidol i gefnogi 5g a'r economi ddigidol.
Interdependencies across the heat and transport sectors	Effaith o golli arian yr UE ar ariannu seilwaith ôl-2020
Budd economaidd o isadeiledd cymdeithasol	Opsiynau ariannu ar gyfer seilwaith newydd.
Botensial effaith ar gydraddoldeb o fuddsoddi mewn seilwaith	Mae angen seilwaith ym mhowys.
Ddibyniaeth rhwydweithiau isadeiledd.	Cysylltiadau rhwng rheoli galw am ynni ac anghenion cyflenwi ynni
Cyrolau a Ragwelir o bobl	Cyflenwad cynaliadwy o adnoddau cynhenid

Gofynion bwyd	Dadansoddiad o fanteision macro o wella effeithlonrwydd ynni domestig o fewn y cyd-destun y du.
Effaith Brexit ar anghenion seilwaith	Cysylltu Morglawdd Bae Caerdydd, gyda Penarth Esplanade
Asesu gwerth am arian o wariant cyhoeddus.	Rhyngwyneb rhwng darpariaeth isadeiledd a'r cyflenwad tai
Asesiad o'r isadeiledd presennol yng Nghymru.	Technegau modelu trafndiaeth ddefnyddio'r ardal sy'n dod i'r amlwg o ddata ffonau symudol a gwybodaeth GPS amser real.
Rheoli galw mewn perthynas â seilwaith.	Offer ar gyfer gwerthuso effeithiol o hyfywedd economaidd a bywiogrwydd gyda'r trefol perthynas sector manwerthu i seilwaith trafndiaeth a mynediad.
Isadeiledd addas ar gyfer carbon isel a'r economi cylchlythyr (2050 a 2100 targed).	Meintioli manteision amgylcheddol o ddulliau teithio actif iechyd ac i lywio'r broses weltag ddiwygiedig.
Seilwaith a llygredd amgylcheddol.	Addasu protocolau cynllunio a pholisi defnydd tir presennol er mwyn adlewyrchu'n well gofynion isadeiledd yng nghyd-destun y Ddeddf Lles a Cenedlaethau'r Dyfodol.
Costau cymdeithasol o ddatblygiadau seilwaith	Rheoli perygl llifogydd
Cysylltiadau rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr	Datblygu 'Gweledigaeth ar gyfer Cymru' yn gosod allan yr hyn y mae angen ei gyflawni i dyfu angen ein heconomi a'n seilwaith i'w gyflawni.
Effeithiau llygredd eang o dir amaethyddol o treuliad anaerobig	Mae effeithiau targedau ynni adnewyddadwy ar y dirwedd a bioamrywiaeth ac amwynder cefn gwlad yng nghefn gwlad Cymru
Hyfywedd ariannol gwynt a ysbeidiol roddir solar a golau haul isel.	Colli ucheldir a chynefinoedd eraill mewn perygl
Cyfleoedd ar gyfer arbed ynni a gostwng y defnydd o drafnidiaeth breifat.	Effaith ar dwristiaeth a hyfywedd cymunedau gwledig

